

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tuag at Gonfensiwn Cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig?

Mai 2012

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r galwadau diweddar i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol i'r DU gyfan. Mae'r papur hefyd yn crynhoi datblygiadau cyfansoddiadol diweddar ac yn cynnwys crynodeb o gonfensiynau, comisiynau a chynadleddau cyfansoddiadol trawsbleidiol sydd wedi'u cynnal yn y gorffennol yn y DU ac mewn mannau eraill.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/1189

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Tuag at Gonfensiwn Cyfansoddiadol i'r
Deyrnas Unedig?**

Mai 2012

Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/023



Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Galwadau blaenorol i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig gyfan.....	4
3.	Datblygiadau cyfansoddiadol diweddar yn y Deyrnas Unedig.....	6
4.	Confensiynau cyfansoddiadol blaenorol	8
4.1.	Cynadleddau'r Llefarydd	8
4.2.	Yr Alban.....	9
4.3.	Cymru.....	10
5.	Sut y mae gwledydd eraill wedi mynd ati	12
5.1.	Awstralia.....	12
5.2.	Canada	12

Tuag at Gonfensiwn Cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig?

1. Cyflwyniad

Ar ôl buddugoliaeth Plaid Genedlaethol yr Alban (yr SNP) yn etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai 2010 a phenderfyniad Llywodraeth yr SNP i gynnal refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban yn 2014, mae goblygiadau yn sgil y ffaith bod yr Alban yn ymadael â'r DU wedi cael eu gosod yn gadarn ar agenda gyfansoddiadol y DU. Gan ymateb i'r datblygiadau hyn yn bennaf, yn ddiweddar mae'r Prif Weinidog, y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, wedi galw ar Lywodraeth y DU i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored ynglŷn â sut y gallai'r DU ei hun weithredu'n fwy cyfrifol er mwyn diwallu anghenion y gwledydd sy'n rhan ohoni.¹ Ychwanegodd fod y ddadl ynglŷn â dyfodol y DU yn rhywbeth i ni i gyd ei hystyried ac na ddylai gael ei harwain gan ymatebion cyson i ddigwyddiadau yn yr Alban.²

Ategodd y Prif Weinidog y farn hon mewn araith yng nghynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig - "Cymru a'r Undeb yn Newid" a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 31 Mawrth 2012:

If the people of Scotland vote in favour of independence the shape and constitutional make-up of the UK will be dramatically changed. We will not simply be able to wake up the day after and carry on as if nothing had happened when the top part of the state has been lopped off..! Equally, if the vote is against independence there is still the prospect of substantive constitutional change in one part of the UK that potentially will impact on all other parts of the Union. Wales needs to keep ahead of this debate, not get left behind by the tide of change. We need to define our future in our own terms.

I have therefore called for a United Kingdom Constitutional Convention that would enable all four countries of the Union to discuss its future together, rather than piecemeal. I have written to the Prime Minister on this issue, and await his response.

I am particularly concerned that constitutional reforms are being proposed without reference to other constitutional developments. Take, for example, the forthcoming proposals for reform of the House of Lords. There is potential for reform of the Lords to be an important part of the overall review of constitutional arrangements in the UK, but this linkage simply does not appear to have been made ...

I cannot emphasise enough how important it is that we start discussing the future of the United Kingdom before the people of Scotland go to the polls. We cannot underestimate the substantive impact that constitutional change in Scotland will have on every part of the Union and we must start planning for the future.³

¹ Wales Online, [UK break-up debate 'too Scottish' says First Minister Carwyn Jones](#), 24 Ionawr 2012

² Ibid

³ Click On Wales, [Wales and the Future of the United Kingdom](#), 2 Ebrill 2012

Ychwanegodd:

The incremental piecemeal approach to our constitution is destabilising and distracting. Far better, I believe, to have a comprehensive look at what kind of state we want the UK to be and then move towards a written constitution which commits and binds. Part of that constitution would define the relationship between the Devolved Administrations and UK Institutions. "Asymmetric quasi-federalism" is not the snappiest slogan for a political campaign, but the UK has changed beyond recognition over the past 15 years and it is time that our constitution recognised this.⁴

Gan ymateb i lythyr Prif Weinidog Cymru at Brif Weinidog y DU, dywedodd llefarydd o Downing Street:

The Prime Minister has received the letter and will respond shortly. He has previously made clear that he is committed to the Union and the government has already introduced measures to strengthen devolution, for example by establishing the Silk Commission in Wales and the Commission on the Consequences of Devolution in the House of Commons.⁵

Fodd bynnag, mae Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin yn cynnal ymchwiliad i ystyried a ddylid cynnal Confensiwn Cyfansoddiadol i'r DU. Mae'n ymgynghori ynglŷn â'r canlynol:

Y rhesymau a'r seiliau dros sefydlu confensiwn

- A oes dadl o blaid sefydlu confensiwn cyfansoddiadol i'r DU?
- Pe sefydlid confensiwn cyfansoddiadol, ar ba sail y dylid gwneud hynny? Beth fyddai ei statws cyfreithiol, ynteu a allai fwrw ymlaen ar sail fwy anffurfiol?
- Pa wersi y gellid eu dysgu yn sgil confensiynau cyfansoddiadol blaenorol, mewn gwledydd eraill?

Cyfansoddiad

- Beth ddylai cyfansoddiad y confensiwn cyfansoddiadol fod?
- Beth fyddai'r ffordd orau o gynnwys y cyhoedd yn y confensiwn?'
- A fyddai modd darparu cynrychiolaeth benodol ar gyfer Lloegr neu ranbarthau Lloegr, ochr yn ochr â gwledydd eraill y DU a'r DU gyfan?
- A fyddai mandad gan aelodau'r confensiwn ac, os felly, pwy fyddai'n rhoi'r mandad hwnnw ac i wneud beth?

⁴ Click On Wales, [Wales and the Future of the United Kingdom](#), 2 Ebrill 2012

⁵ Wales Online, [Hennessy supports Carwyn's push for a federal chamber](#), 24 Ebrill 2012

Cylch gwaith a dulliau gweithio

- Beth y dylai cylch gorchwyl y confensiwn cyfansoddiadol ei gynnwys? Er enghraifft, a ddylid gofyn i'r confensiwn gynnog strwythur cyfansoddiadol newydd ar gyfer y DU, neu sefydlu cytundeb rhwng gwahanol wledydd y DU ynglŷn â sut y dylent barhau â'u perthynas â'i gilydd a chyda Llywodraeth y DU a Senedd y DU?
- A oes unrhyw faterion cyfreithiol/cyfansoddiadol y mae angen rhoi sylw penodol iddynt, megis yr angen i gydymffurfio â thelerau Cytundeb Belfast, neu Gytundeb Dydd Gwener y Groglith 1998?
- Sut y dylid bwrw ymlaen â'r confensiwn? Er enghraifft, ai ar sail consensws, unfrydedd, pleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig, ynteu bleidleisio drwy fwyafrif syml? A fyddai gan bawb sy'n rhan o'r confensiwn yr un statws? A oes unrhyw faterion gweithdrefnol eraill y dylid eu hystyried ar hyn o bryd?
- Sut y byddai cynigion a wneid gan y confensiwn yn cael eu rhoi ar waith? Er enghraifft, a fyddai gofyn i wahanol Gynullïadau a Seneddau'r DU eu cadarnhau, ynteu a fyddai angen cynnal un refferendwm neu fwy?⁶

Daw ymgynghoriad y pwyllgor i ben ar 14 Mehefin 2012.

Diben y papur hwn yw rhoi trosolwg o'r galwadau diweddar yng Nghymru ac yn y DU am sefydlu confensiwn i roi sylw i faterion sy'n ymwneud â Llywodraethu'r DU. Mae'r papur hefyd yn crynhoi datblygiadau cyfansoddiadol diweddar a gwybodaeth am gonfensiynau, comisiynau a chynadleddau trawsbleidiol sydd wedi'u cynnal yn y DU ac mewn mannau eraill yn y gorffennol.

⁶ Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, tudalen we ar yr Ymchwiliad i Gonfensiwn Cyfansoddiadol y DU [fel ar 9 Mai 2012]

2. Galwadau blaenorol i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Yn fuan ar ôl iddo gael ei ethol yn arweinydd ar y Democratiaid Rhyddfrydol yn 2007, dechreuodd y Gwir Anrh. Nick Clegg AS bwysu am greu confensiwn ym Mhrydain ar yr un patrwm â Chonfensiwn Cyfansoddiadol yr Alban (mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 4.2) a fyddai'n ymchwilio i system wleidyddol y wlad sydd "wedi torri" ac yn edrych yn benodol ar ddiwygio'r drefn etholiadol a'r cysylltiadau rhwng San Steffan a'r cyrff datganoledig.⁷ Ers hynny, mae llawer o wleidyddion a sylwedyddion wedi galw am gamau tebyg.

Yn 2009, roedd y blogiwr a'r sylwebydd gwleidyddol Ceidwadol, Iain Dale, yn cefnogi creu confensiwn cyfansoddiadol i'r DU gyfan – confensiwn a fyddai'n mynd i'r afael â nifer o faterion cyfansoddiadol cysylltiedig:

I'd like to see a UK wide constitutional convention, made up of all sorts of people and groups, not just elected politicians. It could run along similar lines to the Scottish one from the late 1990s, but England's constitutional future cannot be decided in isolation. There are pressures for the Welsh Assembly to be upgraded to a full parliament, which is something that would have consequences for the UK too. Should the Scottish Parliament also be given further powers? These are not just questions for Scotland and Wales to determine. Such a convention could also look at the future powers and makeup of both the House of Commons and House of Lords, as well as the increasingly important question of the English democratic deficit.⁸

Yn 2009 hefyd, dywedodd y Farwnes Shirley Williams, y cyn AS sydd erbyn hyn yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi am oes, ei bod yn teimlo bod cyflwyno *Bil Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol* Llywodraeth y DU (a ddaeth maes o law yn *Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010*⁹) yn gyfle i arweinwyr pob un o'r prif bleidiau wneud y canlynol:

... to establish a constitutional convention for the United Kingdom ... a convention on the Scottish model that would include representatives of all parties, of civil society, academia, both sides of industry, the churches and others as the Scottish Constitutional Convention did, together with the tools a deliberating democracy requires.¹⁰

Er nad aeth cyn belled â chefnogi'r cais am gonfensiwn, dadleuodd yr Arglwydd Wigley'n ddiweddar nad oes modd ystyried diwygiadau megis y rhai a drafodir mewn perthynas â Thŷ'r Arglwyddi ar wahân i ddatblygiadau cyfansoddiadol eraill.¹¹ Dywedodd hefyd, os oes gan y DU ddyfodol, ei bod yn rhaid meddwl yn greadigol am y pwerau a ddatganolir i'r Alban, i Gymru ac i Ogledd Iwerddon – ac yn wir i Loegr.¹²

⁷ The Guardian, *Brown offers to hold talks with Clegg on constitutional reform*, 30 Rhagfyr 2007

⁸ Iain Dale's Diary, *Do we need a UK-wide constitutional convention?*, 25 Mai 2009

⁹ *Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010* (Pennod 25) (Saesneg yn unig)

¹⁰ Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, *Shirley Williams: Darlith Goffa Donald Dewar*, (Saesneg yn unig) 25 Awst 2009

¹¹ Agenda, *Dafydd Wigley: Turkeys don't vote for Christmas*, Gwanwyn 2012

¹² Ibid

Fodd bynnag, mae Alan Trench wedi dadlau y byddai perygl mawr y gallai'r cynigion i greu confensiwn cyfansoddiadol ar gyfer y DU fod yn aflwyddiannus. Roedd yn amheus a allai dull o'r fath (dull 'y Glec Fawr' yn ei eiriau ef) sicrhau atebion sefydlog neu hirhoedlog i gwestiynau mor gymhleth.¹³ Yn benodol, tynnodd sylw at dair problem benodol a fyddai'n codi wrth greu confensiwn o'r fath a'i roi ar waith:

The first is the question of who would take part in such a convention. Would it be the devolved and UK Governments? What about AMs, MLAs, MSPs and MPs? How would delegations from the various institutions be chosen? Who would speak for England, as a whole or its various parts? It's far from clear how one would constitute such a convention, and what their mandates might be ...

The second problem is that it's premature at this stage to try to address these issues ... If there is to be some sort of grand convention, there needs to be much greater, cross-party consensus about what these might be, so that they can be taken into that convention ...

The third problem follows from the second. It's pretty evident that what might be appropriate for Scotland is not for Wales, and the same for each other part of the UK.¹⁴

¹³ Devolution Matters, [*A grand constitutional convention for the United Kingdom*](#), 29 Ionawr 2012

¹⁴ Ibid

3. Datblygiadau cyfansoddiadol diweddar yn y Deyrnas Unedig

Er bod annibyniaeth yr Alban yn arwyddocaol i'r ddadl bresennol ynglŷn â'r cyfansoddiad, nid dyna'r unig ddatblygiad cyfansoddiadol pwysig y mae'r DU yn ei wynebu ar hyn o bryd.

Ers ffurfio'r glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Mai 2010, mae Llywodraeth y DU wedi creu cyfreithiau ac wedi cyflwyno sawl cynnig i drwsio system wleidyddol Prydain, system sydd yn ei golwg hi wedi torri.¹⁵ Dyma rai ohonynt:

- Cyflwyno tymor seneddol penodedig pum mlynedd yn Nhŷ'r Cyffredin;
- Y cynnig i leihau nifer yr ASau o 650 i 600 (ac o 40 i 30 AS yng Nghymru) erbyn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015;
- Cyflwyno system o ethol meiri yn uniongyrchol yn Lerpwl, Caerlŷr a Bryste;¹⁶
- Y cynnig i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi.¹⁷

Yn ogystal â'r cynigion hyn, mae Llywodraeth y DU wedi trosglwyddo mwy o bwerau a chyfrifoldebau ariannol i Weinidogion yr Alban ac i Senedd yr Alban drwy *Ddeddf yr Alban 2012*¹⁸ ac mae wedi sefydlu'r ddau Gomisiwn a ganlyn mewn perthynas â datganoli:

- Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk - mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 4.3);¹⁹ a
- Y Comisiwn ar Ganlyniadau Datganoli ar gyfer Tŷ'r Cyffredin (Comisiwn McKay).²⁰

Daw'r datblygiadau diweddar hyn yn sgil nifer o ddiwygiadau cyfansoddiadol sylweddol a wnaethpwyd gan lywodraethau Llafur olynol rhwng 1997 a 2010. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno datganoli yn yr Alban ac yng Nghymru a datblygu'r datganoli hwnnw wedyn, pasio *Deddf Hawliau Dynol 1998*²¹ a sefydlu Goruchaf Lys y DU.

Yn sgil y datblygiadau hyn, fodd bynnag, mae rhai sylwebyddion a gwleidyddion wedi dadlau bod y ffordd dameidiog y mae'r diwygiadau cyfansoddiadol hyn wedi cael eu cyflwyno yn y DU dros y 15 mlynedd diwethaf wedi arwain at ddatblygu

¹⁵ Swyddfa'r Cabinet, *The Coalition: our programme for government*, Mai 2010, Adran 24

¹⁶ Ar ôl cynnal refferenda ar 3 Mai 2012, gwrthodwyd y cynnig i ethol meiri yn uniongyrchol gan bleidleiswyr yn Birmingham, Manceinion, Newcastle, Nottingham, Sheffield, Wakefield, Coventry, Leeds a Bradford. Fodd bynnag, pleidleisiodd Bryste o blaid system o ethol maer yn uniongyrchol. Roedd Cynghorau Dinas Lerpwl a Chaerlŷr wedi penderfynu mabwysiadu system o ethol maer eisoes ym mis Rhagfyr 2010 ac ym mis Mai 2011 yn y drefn honno, felly nid oedd angen cynnal refferenda yno ynglŷn â'r mater.

¹⁷ I gael rhagor o wybodaeth gweler Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Papur Ymchwil: Cymru a diwygio Tŷ'r Arglwyddi*, Mai 2012

¹⁸ *Deddf yr Alban 2012* (Pennod 11) (Saesneg yn unig)

¹⁹ I gael rhagor o wybodaeth gweler Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Papur Ymchwil: Comisiwn Silk*, Tachwedd 2011, a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Papur Ymchwil: Y llwybr tuag at y Comisiwn Annibynnol ar ddatganoli yng Nghymru*

²⁰ I gael rhagor o wybodaeth gweler Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Papur Ymchwil: Comisiwn Gorllewin Lothian*, Mai 2012

²¹ *Deddf Hawliau Dynol 1998* (Pennod 42) (Saesneg yn unig)

cyfansoddiad sydd o bosibl yn ansicr ac yn anghyflawn.²² Gan ysgrifennu yn 2009, dywedodd Vernon Bogdanor:

There is a sense of incompleteness about the constitutional reforms since 1997, an uncertainty about their final direction. Constitutional reform has been a process rather than an event, and so far it is an incomplete process.²³

²² Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, [*Library Note: Possible implications of House of Lords Reform*](#), 25 Mehefin 2010

²³ *ibid*

4. Confensiynau cyfansoddiadol blaenorol

Nid oes yr un confensiwn cyfansoddiadol wedi'i gynnal erioed ar gyfer y DU gyfan, er bod confensiynau o'r fath wedi bod yn nodwedd amlwg o ddadleuon cyfansoddiadol diweddar yn yr Alban ac yng Nghymru.²⁴ Yn hytrach na sefydlu confensiynau cyhoeddus ar gyfer y DU gyfan, roedd yn well gan Brif Weinidogion Prydain yr ugeinfed ganrif ofyn i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin sefydlu a chadeirio cynadleddau ffurfiol er mwyn sicrhau cytundeb rhwng yr holl bleidiau, gyda golwg benodol ar ddiwygio cyfraith etholiadol yn y DU. Isod, ceir manylion y cynadleddau hyn a'r amrywiol gonfensiynau cyfansoddiadol a gynhaliwyd mewn gwahanol rannau o'r DU ac mewn mannau eraill.

4.1. Cynadleddau'r Llefarydd²⁵

Math o ymchwiliad ffurfiol i'r trefniadau sy'n llywodraethu etholiadau yn y DU yw cynhadledd y Llefarydd ac anaml y defnyddir cynadleddau o'r fath. Yn ôl Nodyn Safonol yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin:

It is a manifestation of the constitutional convention that changes to the electoral system should be agreed as far as possible on an all-party basis.²⁶

Nid oes rheolau penodedig neu statudol sy'n llywodraethu'r broses o drefnu cynhadledd y Llefarydd. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog wedi trefnu cynadleddau yn y gorffennol drwy wahodd y Llefarydd i lywyddu dros gynhadledd hollbleidiol. Fel rheol, pennir y cylch gorchwyl yn y gwahoddiad, ond ni phennir yr aelodaeth na'r weithdrefn.

Cynhaliwyd pum cynhadledd fel hyn ar faterion yn ymwneud â chyfraith etholiadol a diwygio etholiadol yn yr ugeinfed ganrif. Pan oedd yn Brif Weinidog, atgyfodwyd yr arfer gan Gordon Brown yn 2007, gan gyhoeddi y byddai cynhadledd newydd yn cael ei threfnu i ystyried sut y gellid brwydro yn erbyn y lleihad yn y nifer a oedd yn pleidleisio mewn etholiadau a chynyddu'r gynrychiolaeth o fenywod a lleiafrifoedd ethnig yn Nhŷ'r Cyffredin.²⁷

Isod, ceir rhestr o gynadleddau'r Llefarydd sydd wedi'u cynnal er 1915, ynghyd â'u cylchoedd gorchwyl:

- **1916-17:** Ymchwilio i ddiwygio'r etholfraint, y sail ar gyfer ailddosbarthu seddi, diwygio'r system cofrestru etholwyr a'r dull a ddefnyddid i gynnal etholiadau ynghyd â sut y dylid ysgwyddo costau etholiadau.

²⁴ Sefydlwyd Confensiwn Cyfansoddiadol Gogledd Iwerddon yn 1975 mewn ymgais i adfywio'r llywodraeth ddatganoledig yn Stormont, ond methodd â sicrhau consensws ac ni weithredodd am gyfnod maith.

²⁵ I gael rhagor o wybodaeth gefndir, gweler Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Standard Note: Speaker's conferences*, 1 Rhagfyr 2009

²⁶ *ibid*

²⁷ Newydd y BBC, *Speaker's conference*, 30 Hydref 2008

- **1944:** Ymchwilio i ddiwygio'r etholfraint, aiddosbarthu seddi, ymddygiad a chostau'n gysylltiedig ag etholiadau seneddol (gan gynnwys y treuliau a ysgwyddid gan ymgeiswyr ac ASau) a'r dulliau a ddefnyddid i gynnal etholiadau.

Roedd y cyfarfod hwn yn un hollbwysig o ran datblygu cynrychiolaeth diriogaethol yn San Steffan gan bennu mai nifer yr ASau ar gyfer Cymru fyddai o leiaf 35²⁸ (mae'r nifer hon wedi lleihau i 30 ers hynny yn sgil *Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011*²⁹).

- **1965-68:** Ymchwilio i ddiwygio'r etholfraint, dulliau ethol (gan roi sylw penodol i bleidleisio blaenoriaethol), cynnal etholiadau, treuliau etholiadau'n gyffredinol, defnyddio darlledu a chost deisebau etholiadau a cheisiadau am gymorth.
- **1973-74:** Ystyried cofrestru etholiadol, yn enwedig yr amserlen gofrestru, cofrestru fwy nag unwaith a diffinio "preswylfan", cofrestru dynion y lluoedd arfog, yr oedran ieuengaf ar gyfer pleidleisio ac amseru isetholiadau.
- **1977-78:** Ystyried faint o etholaethau seneddol a ddylai fod yng Ngogledd Iwerddon.
- **2008:** Ystyried unioni'r gwahaniaeth rhwng cynrychiolaeth menywod a lleiafrifoedd ethnig yn Nhŷ'r Cyffredin a'u cynrychiolaeth ym mhoblogaeth y DU drwyddi draw.

Mae Llefarywr a/neu gyn-Lefarywr wedi cynnal cynadleddau eraill hefyd, ac fe'u rhestrir isod:

- **1919-20:** Cynhadledd ar ddatganoli.
- **1929-30:** Ni roddwyd cylch gorchwyl penodol iddi, ond trafodwyd ac ymchwiliwyd i ragoriaethau cynrychiolaeth gyfrannol a'r bleidlais amgen o'u cymharu â'i gilydd ac â'r system bresennol.

4.2. Yr Alban

Sefydlwyd Confensiwn Cyfansoddiadol yr Alban yn 1989 er mwyn llunio glasbrint manwl ar gyfer datganoli yn yr Alban. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas sifil yr Alban ac o rai o'r pleidiau gwleidyddol (er y dylid nodi bod yr SNP a Cheidwadwyr yr Alban wedi dewis peidio â chymryd rhan). Roedd adroddiad y confensiwn – [Scotland's Parliament Scotland's Right](#) - a gyhoeddwyd yn 1995, yn cynnig Senedd i'r Alban â phwerau i greu deddfwriaeth sylfaenol a phwerau cyfyngedig i drethu. Ar y cynigion hynny wedyn y seiliwyd papur gwyn y

²⁸ Gweler Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [The Parliamentary Voting and Constituencies Bill Research Paper 10/55](#), 1 Medi 2010, Adran 4.8

²⁹ [Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011](#) (Pennod 1) (Saesneg yn unig)

llywodraeth Lafur, [Scotland's Parliament](#), a ddaeth yn ddiweddarach yn sail ar gyfer *Deddf yr Alban 1998*.³⁰

Sefydlwyd y [Confensiwn Annibyniaeth yr Alban](#), sy'n gysylltiedig â'r SNP, Plaid Werdd yr Alban, Plaid Sosialaidd yr Alban a Solidarity, yn 2005 i hyrwyddo annibyniaeth i'r Alban a chreu cyfle i'r pleidiau gydweithredu o fewn eu ffiniau.³¹

4.3. Cymru

Yn wahanol i'r datblygiadau yn yr Alban, ni chynhaliwyd confensiwn cyfansoddiadol yng Nghymru cyn refferendwm 1997. Yn ôl Wyn Jones a Lewis³², roedd canlyniadau peidio â chynnal confensiwn o'r fath yn arwyddocaol:

The Scottish Convention appears to have played an important role not only in animating the debate over Scottish devolution, but also in securing legitimacy for a particular set of proposals. Indeed, since the 1997 referendums, a number of politicians have argued that the result in Wales might have been a much more convincing vote in favour of devolution had a Welsh Convention been established.³³

Er 1999, fodd bynnag, mae amrywiol gomisiynau a chonfensiynau hollbleidiol wedi'u sefydlu i ystyried ac argymhell newidiadau i setliad datganoli Cymru a sefydlwyd i ddechrau gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*.

Penodwyd Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Richard o Rydaman ("Comisiwn Richard") ym mis Gorffennaf 2002 yn dilyn ymrwymiad yn sgil cytundeb y glymblaid rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad ym mis Hydref 2000.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei [adroddiad](#) yng ngwanwyn 2004. Cynhwyswyd llawer o'i argymhellion yn y lle cyntaf ym mhapur gwyn y llywodraeth Lafur ar y pryd, [Trefn Lywodraethu Well i Gymru](#) a ddaeth wedyn y sail i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.³⁴ Yn ôl un o aelodau'r Comisiwn, yr Athro Laura McAllister, roedd ei waith yn ysgogi'r cyhoedd i feithrin cysylltiad cryfach â'r prosiect datganoli, ac roedd yn adlewyrchu hynny hefyd, yn enwedig o gofio pa mor ansoffistigedig oedd y drafodaeth wleidyddol yng Nghymru cyn 1997 a'r diffyg hyder a oedd yn ei nodweddu.³⁵

Ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2007, roedd ymrwymiad i sefydlu "Confensiwn Cymru Gyfan" yn un o nodweddion canolog cytundeb clymblaid "Cymru'n Un" rhwng Llafur a Phlaid Cymru. Penodwyd Emyr Jones-Parry yn Gadeirydd y confensiwn ym mis Hydref 2007 a phenodwyd pwyllgor gwaith o 16 o aelodau ym mis Gorffennaf

³⁰ *Deddf yr Alban 1998* (Pennod 46) (Saesneg yn unig)

³¹ Confensiwn Annibyniaeth yr Alban, [About Us](#)

³² I gael rhagor o wybodaeth, gweler Wyn Jones, R. & Lewis, B. 1998. *The Wales Labour Party and Welsh Civil Society: Aspects of the Constitutional Debate in Wales*, Cynhadledd Flynyddol PSA, Prifysgol Keele, Ebrill 7-9 1998

³³ *ibid*

³⁴ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32) (Saesneg yn unig)

³⁵ McAllister, L. 2005

2008. Ei brif amcan oedd "asesu barn y cyhoedd ynglŷn â'r pwerau deddfu sylfaenol a ddylai fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru".³⁶ Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyhoeddus gan y Confensiwn a chyhoeddodd ei **adroddiad** ym mis Tachwedd 2009. Defnyddiwyd ei argymhellion wedyn fel sail i'r refferendwm ar ragor o bwerau i'r Cynulliad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011.

Ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010, a ffurfio llywodraeth glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, sefydlwyd comisiwn arall yng Nghymru, sef y **Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru** a phenodwyd Paul Silk yn Gadeirydd arno. Gofynnwyd i'r Comisiwn rannu ei waith yn ddwy ran, fel a ganlyn:

- **Rhan 1: Atebolrwydd Ariannol:** Yn y rhan hon, bydd y ddadl o blaid datganoli pwerau ariannol i'r Cynulliad yn cael ei hadolygu a bydd pecyn o bwerau a fyddai'n cryfhau atebolrwydd ariannol y Cynulliad yn cael ei argymhell. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i adroddiad ar y rhan hon erbyn diwedd hydref 2013. Rhaid cwblhau'r rhan hon cyn dechrau'r gwaith ar Ran 2.

Rhan 2: Pwerau'r Cynulliad: Yn y rhan hon, bydd pwerau'r Cynulliad yn cael eu hadolygu yng ngoleuni profiad ac argymhellir addasiadau i'r trefniadau cyfansoddiadol presennol. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i adroddiad am y materion hyn erbyn gwanwyn 2014.³⁷ ■

³⁶ Confensiwn Cymru Gyfan [Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan](#), Tachwedd 2009

³⁷ I gael rhagor o wybodaeth, gweler Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Papur Ymchwil: Comisiwn Silk](#), Tachwedd 2011 a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011, [Papur Ymchwil: Y llwybr tuag at y Comisiwn Annibynnol ar ddatganoli yng Nghymru](#), Medi 2011

5. Sut y mae gwledydd eraill wedi mynd ati

5.1. Awstralia

Cynhaliwyd confensiwn cyfansoddiadol yn Awstralia rhwng 2 a 13 Chwefror 1998 ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud a ph'un a ddylai Awstralia ddod yn weriniaeth ai peidio. Parhaodd y confensiwn am ddeng niwrnod a gofynnwyd iddo ddatrys y materion a ganlyn:

- A ddylai Awstralia ddod yn weriniaeth ai peidio?
- Pa fodel gweriniaethol y dylid ei gynnig i'r etholwyr ei gymharu â'r sefyllfa fel y mae?
- Beth fyddai'r amserlen a'r amodau ar gyfer ystyried unrhyw newid posibl?

Roedd y confensiwn yn cefnogi creu gweriniaeth mewn egwyddor a phenderfynwyd cynnal refferendwm yn 1999 er mwyn i bobl Awstralia benderfynu a ddylai'r wlad ddod yn weriniaeth ynteu a ddylid cadw at y sefyllfa fel y mae.

Cyfyngwyd y confensiwn i ystyried y tri pheth hyn yn unig. Felly ni roddwyd llawer o sylw, os o gwbl, i faterion cyfansoddiadol pwysig eraill yn Awstralia, megis ffederaliaeth, neu greu Bil lawnderau.³⁸

5.2. Canada

Yn hytrach na sefydlu confensiynau untro i drafod materion o bwys cenedlaethol a chytuno arnynt, mae Canada yn cynnal cynadleddau rhynglywodraethol rheolaidd rhwng Prif Weinidog Canada a Phrif Weinidogion y taleithiau er mwyn ymgynghori, cydgysylltu, negodi a sicrhau cytundeb ymhlith y llywodraethau ffederal, taleithiol a thiriogaethol.³⁹ Cynhelir y cynadleddau hyn yn ôl yr angen a byddant yn canolbwyntio'n gyffredinol ar gyfres o bynciau cyfoes, megis gofal iechyd a datblygu economaidd, yn ogystal ag ar faterion cyfansoddiadol.⁴⁰

Cynhaliwyd Cynhadledd nodedig gan y Prif Weinidog ar y Cyfansoddiad yn 1981 ar ôl refferendwm yn 1980, lle y gwrthododd mwyafrif y pleidleiswyr roi mandad i lywodraeth Quebec negodi telerau ymwahanu oddi wrth weddill Canada. Ar ôl y canlyniad, penderfynodd y Prif Weinidog ffederal, Pierre Trudeau, fwrw ymlaen â'i gynlluniau i ailwladoli Cyfansoddiad Canada neu ddod ag ef yn ôl o'r DU ynghyd â sicrhau fformiwla diwygio a hawliau cadarn i bawb yng Nghanada.⁴¹

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, roedd Cynhadledd y Prif Weinidog a gynhaliwyd wedyn yn hollbwysig er mwyn setlo cytundeb rhwng y prif weinidogion ffederal a

³⁸ I gael rhagor o wybodaeth, gweler Senedd Awstralia, [The 1998 Constitutional Convention-First Impressions](#), 23 Mawrth 1998

³⁹ Ysgrifenyddiaeth Cynhadledd Rynglywodraethol Canada, [Llyfryn CICS](#) (Saesneg yn unig)

⁴⁰ Mae rhestr o holl Gynadleddau Prif Weinidog Canada a gynhaliwyd rhwng 1906 a 2004 ar gael yn nogfen Ysgrifenyddiaeth Cynhadledd Rynglywodraethol Canada, [First Minister's Conferences 1906-2004](#)

⁴¹ Mae rhagor o wybodaeth am ailwladoli Cyfansoddiad Canada ar gael ar wefan Canada History, [The Constitution](#)

thaleithiol ynglŷn ag ailwladoli, er bod Prif Weinidog Quebec wedi gwrthod y cytundeb.

Cafodd y cyfansoddiad ei wladoli a sefydlwyd fformiwla diwygio a siarter hawliau ar Ebrill 17 1982 pan lofnodwyd datganiad gan y Frenhines, mewn seremoni ar Fryn y Senedd yn Ottawa, gan ddod â *Deddf Cyfansoddiad 1982* i rym.